**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**


# Cyflawni gyda'n gilydd

## Ein Cynllun Corfforaethol **2023-28**



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

BRIDGEND County Borough Council



# 01 Yr hyn y mae eich Cyngor yn ei wneud


**Ein Cynllun Corfforaethol** 4

**Yr ardal rydym yn ei chwmpasu** 6

**Yr adnoddau rydym yn eu defnyddio** 7

- Ein pobl
- Ein hasedau
- Ein harian

**Y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd** 10

**Byd sy'n newid i lywodraeth leol** 11


# 02 Ein huchelgais ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr


**Sut fyddwn ni'n gweithio'n wahanol i chi** 14

**7 Amcan Llesiant eich Cyngor** 16

**Bwrdeistref Sirol lle rydym yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed** 18

**Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, swyddi medrus o ansawdd uchel a threfi ffyniannus** 24

**Bwrdeistref Sirol lle mae cymunedau'r cymoedd yn ffynnu** 30

**Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial** 36

**Bwrdeistref Sirol sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur** 42

**Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned** 48

**Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cynorthwyo pobl i fyw bywydau iach a hapus** 54

**Sut fyddwn ni'n mesur a dangos ein cynnydd i chi** 60

**Sut fyddwn ni'n defnyddio eich barn** 62




# Rhagair

**Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â chi, pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.** Rydym ni wedi gweithio gyda thrigolion, staff, undebau llafur, aelodau etholedig a busnesau i lywio ein huchelgeisiau ar ran pob un ohonom yn y pum mlynedd nesaf.

Yn y cyfnod anodd hwn, mae cyfres glir o flaenoriaethau (a chynllun o ran sut i'w cyflawni) yn bwysicach nag erioed.

Nid yw'r cynllun yn cynnwys pob gwasanaeth rydym yn ei ddarparu na phob nod rydym am ei gyrraedd. Yn hytrach, mae'n dweud wrthych sut byddwn yn gweithio'n wahanol a beth fydd ein blaenoriaethau. Mae'n ymateb i'r problemau tymor byr a thymor canolig, fel yr argyfwng ariannol, gan fynd ati'r un pryd i warchod ein hamgylchedd naturiol a helpu pobl ifanc i gyrraedd eu potensial ar gyfer y tymor hir. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn, gan gynnwys ein hymrwymiad i sicrhau statws carbon sero net erbyn 2030.

Her fawr i bawb dros y blynyddoedd nesaf fydd yr argyfwng costau byw. Mae biliau a phrisiau cynyddol yn rhoi straen ar ein cyllid personol, ac ar gyllideb y Cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni weithio'n wahanol yn y dyfodol.

Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae yn llwyddiant y Fwrdeistref Sirol. Mae gennym ddyletswydd i'r trigolion, ac mae gan ein trigolion ddyletswydd i'w cymunedau a'i gilydd. Mae ein cynllun yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud, a'r hyn y gallwch ei wneud i helpu i adeiladu dyfodol gwych i bob un ohonom. Yn 2022, roeddem yn un o Fwrdeistrefi Sirol gorau Cymru am ailgylchu. Dyma enghraifft o wasanaeth rydym yn ei ddarparu a wnaed yn bosibl gan eich ymdrechion.

Ar ôl degawd o gyni, gyda mwy a mwy o'n trigolion yn ei chael hi'n anodd, byddwn yn parhau i wella effeithlonrwydd hefyd a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd gennym.

Mae'r cynllun hwn yn dweud wrthych sut byddwn yn gweithio'n wahanol yn y dyfodol hefyd. Fe wnaeth y pandemig orfodi pob un ohonom i ailfeddwl ynghylch sut rydym yn gweithio. Fe wnaeth ein staff, o faes gofal cymdeithasol i addysg i wastraff ac ailgylchu, addasu i'r newid hwn. Mae angen i ni adeiladu ar hyn er mwyn ymateb i'n heriau newydd a'n heriau yn y dyfodol.

Mae'n gyfnod heriol i'r Fwrdeistref Sirol gyfan. Drwy gydweithio byddwn yn gryfach gyda threfi a chymunedau iach a bywiog.



**Y Cynghorydd Huw David**
Arweinydd y Cyngor



**Mark Shephard**
Prif Weithredwr



**Amcanion Llesiant eich Cyngor**

| Nod Llesiant Cenedlaethol | Amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed | Gwaith teg, swyddi medrus a threfi llewyrchus | Creu cymunedau llewyrchus yn y Cymoedd | Helpu pobl i gyflawni eu potensial | Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned | Cynorthwyo pobl i fod yn iach a hapus |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Cymru gydnerth | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Cymru iachach | ● | | ● | | ● | ● | ● |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | ● | ● | ● | ● | | ● | ● |
| Cymru o gymunedau cydlynus | ● | | ● | | | ● | |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | ● | ● | ● | | | ● |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | ● | ● | | ● | ● | ● |

## 01 Yr hyn y mae eich Cyngor yn ei wneud

# Ein Cynllun Corfforaethol

Bob pum mlynedd mae eich Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Corfforaethol newydd. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio pa heriau y mae eich Cyngor yn eu hwynebu, sut byddwn yn gweithio, ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni, a beth fydd llwyddiant.

Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys eich Cyngor, weithio i wella llesiant Cymru. Mae'n rhaid i ni gytuno ar gyfres o amcanion llesiant a'u cyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i chi sut byddwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Crynhoir y ddolen hon yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Rydym wedi treulio amser yn dysgu o'r gorffennol ac yn dysgu gan sefydliadau eraill i'n helpu i ddatblygu'r amcanion hyn. Rydym wedi edrych ar y canlynol –

- **Ein cynlluniau blaenorol a sut rydym wedi perfformio, boed yn dda ac yn wael**
- **Cynlluniau a blaenoriaethau sefydliadau eraill – partneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynghorau eraill**
- **Barn pobl eraill amdanom – gan ein rheoleiddwyr, ein staff a'n trigolion**
- **Data ac ymchwil sy'n dweud rhagor wrthym ni am sut mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio**

Rydym wedi siarad â llawer o bobl hefyd i weld beth maen nhw'n ei feddwl, i ddeall pa mor dda rydych yn credu ein bod yn perfformio, ac er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n gwneud synnwyr iddyn nhw. Rydym wedi siarad â'ch cynghorwyr, ein pobl a'n hundebau llafur, ein sefydliadau partner, ein trigolion a'ch Cyngor ieuenctid.

# Yr ardal rydym yn ei chwmpasu

Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cwmpasu tua 100 milltir sgwâr ac yn ôl cyfrifiad 2021 roedd y boblogaeth yn 145,760. Mae ein poblogaeth fel a ganlyn –

**50.6%** YN FENYWOD

**49.4%** YN DDYNION

17.9% OED 0-15

61.4% OED 16-64

20.7% OED 65+

**94.4%** o bobl yr un rhywedd ag a gofrestrwyd adeg eu geni

**5.33%** heb ateb

**0.12%** hunaniaeth rhywedd wahanol i'r un a gofrestrwyd ar enedigaeth

**0.06%** menyw draws

**0.05%** dyn traws

**0.02%** anneuaidd

**0.02%** hunaniaeth rhywedd arall

**91.03%** o bobl yn syth

**6.47%** ni atebodd y cwestiwn

**1.35%** yn hoyw neu lesbiaidd

**0.95%** o bobl yn ddeurywiol

**0.20%** pob cyfeiriadedd rhywiol arall

**1.48%** o bobl yn uniaethu fel Asiaidd

**96.78%** yn uniaethu fel gwyn

**0.29%** yn uniaethu fel du


**0.29%** yn uniaethu fel grŵp ethnig arall

**1.16%** yn uniaethu fel hil gymysg

**22.64%** ag anableddau sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ychydig neu lawer.

Mae ein daearyddiaeth yn amrywiol, gyda chymoedd hardd yn y gogledd a 12.5 milltir o arfordir a thraethau yn y de.

Mae'r M4 yn rhedeg drwy ganol y Fwrdeistref Sirol, ac mae gennym gysylltiadau rheilffordd prif linell reilffordd i Gaerdydd a Llundain i'r dwyrain, ac i Abertawe yn y gorllewin.




# Yr adnoddau rydym yn eu defnyddio

## Ein pobl

Mae'r Cyngor yn sefydliad mawr sy'n cyflogi tua 6,000 o bobl. Mae pobl yn ein pedair cyfarwyddiaeth yn darparu gwasanaethau i gefnogi cymunedau drwy bob cyfnod o fywyd.

Ar gyfer hyn, rydym yn dibynnu ar ein pobl, o beirianwyr i athrawon i weithwyr gofal.



| | |
|---|---|
| Prif Weithredwyr | 441 |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 727 |
| Cymunedau | 568 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 1,133 |
| Ysgolion | 3,058 |

Etholir 51 Cynghorydd i gynrychioli 28 o wardiau

## Ein hasedau

Mae ein hasedau yn ein helpu i gadw ein cymunedau wedi'u cysylltu a'u cefnogi. Heb ein tir, ein hadeiladau a'n ffyrdd a llwybrau troed, ni fyddem yn gallu darparu'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau.

Rydym yn cynnal 882 cilometr o rwydwaith ffyrdd a 613.72 cilometr o hawliau tramwy cyhoeddus hefyd, sy'n cynnwys llwybrau troed. Mae hyn yn bellach na'r pellter o Ben-y-bont ar Ogwr i John O'Groats!

- **8** Canolfannau Hamdden
- **48** Ysgolion Cynradd
- **9** Ysgolion Uwchradd
- **2** Ysgolion Arbennig
- **10** Cartrefi Preswyl
- **4** Llyfrgelloedd (annibynnol)
- **7** Llyfrgelloedd (mewn canolfannau hamdden)
- **8** Canolfannau Cymunedol (dan reolaeth y Cyngor)
- **17** Canolfannau Cymunedol (a brydlesir i drydydd parti)
- **3** Canolfannau Ailgylchu



# Ein harian

Byddwn yn gwario dros £485 miliwn yn 2023/24. Datblygwyd y blaenoriaethau yn y cynllun law yn llaw â chynlluniau ariannol manwl iawn, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu fforddio eu cyflawni.

Mae llawer o gyllideb eich Cyngor yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ac mae llai nag un rhan o bump yn dod o'r Dreth Gyngor. Gallwch weld y manylion yn y siart isod.




| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 42% | £202m |
| Treth Gyngor | 19% | £92m |
| Grantiau Penodol | 17% | £81m |
| Ffioedd, Taliadau ac Incwm | 12% | £59m |
| Ardrethi Annomestig | 10% | £48m |


# Sut mae'n cyllideb yn cael ei gwario?


Mae bron i hanner cyllideb eich Cyngor yn cael ei gwario ar ein hysgolion ac mae chwarter arall yn cael ei gwario ar wasanaethau cymdeithasol a llesiant.

Gallwch weld y manylion yn y siart isod.




| | | |
|---|---|---|
| Ysgolion | 32% | £110m |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 27% | £93m |
| Cyllidebau Ledled y Cyngor | 17% | £57m |
| Cymunedau | 9% | £31m |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 8% | £28m |
| Prif Weithredwyr | 7% | £24m |
















# Y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd

Rydym yn darparu tua 800 o wasanaethau i'r gymuned. Mae'r diagram yn rhoi trosolwg o gost ddyddiol rhai o'n gwasanaethau.

**Yr hyn mae eich Cyngor chi'n ei wario ar wasanaethau**
(fesul aelwyd, fesul diwrnod)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **£2.77** Gofal Cymdeithasol i Oedolion | **£4.82** Ysgolion | **£1.06** Gofal Cymdeithasol Plant | **3c** Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | **43c** Casglu a Gwaredu Gwastraff |
| **4c** Goleuadau Stryd | **35c** Priffyrdd | **18c** Tai a Digartrefedd | **25c** Chwaraeon, Hamdden a Gwasanaethau Diwylliannol | **10c** Cynllunio, Datblygu ac Adfywio |
| **70c** Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | **7c** Glanhau Strydoedd | **10c** Parciau a Meysydd Chwarae | **7c** Ymateb i'r Hinsawdd ac Iechyd Amgylcheddol | |



# Byd sy'n newid i lywodraeth leol

Mae'r byd wedi newid llawer ers y pandemig, ac mae'n cael effaith fawr ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio.

Mae'r argyfwng costau byw yn gwneud pethau'n anodd i chi fel trigolion a busnesau, ac mae'n gwneud gwaith y Cyngor yn anoddach hefyd.

**Dyma rai o'r heriau sy'n wynebu eich Cyngor –**


- Costau ynni cynyddol i ganolfannau cymunedol, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ac ysgolion
- Costau tanwydd cynyddol ar gyfer cludiant i'r ysgol, gofalwyr cartref a cherbydau ailgylchu
- Newidiadau i gost nwyddau a'r hyn sydd ar gael fel bwyd ar gyfer cartrefi preswyl a deunyddiau adeiladu ar gyfer ysgolion newydd
- Codiadau cyflog i'n staff sy'n darparu gwasanaethau hollbwysig
- Llywodraeth Genedlaethol yn gofyn i ni ddarparu gwasanaethau ychwanegol fel dosbarthu taliadau costau byw
- Effeithiau ar drigolion sy'n ychwanegu galw at wasanaethau, gan gynnwys cynnydd mewn digartrefedd ac atgyfeiriadau diogelu
- Cyllid ar gyfer y Cyngor ddim yn cynyddu ar yr un raddfa â phrisiau

Mae hyn yn golygu na allwn ddarparu ein gwasanaethau yn yr un ffordd. Mae'n bwysig ein bod yn deall yr hyn sy'n bwysig i'n trigolion. Yn yr argyfwng economaidd ac yn ystod y pandemig, mae'r hyn y mae pobl eisiau wedi newid.

- Rydych am gael strydoedd glanach, mwy o fannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden sy'n fforddiadwy, fel bod yna lefydd braf i dreulio amser gyda ffrindiau a theulu.
- Mae eich llesiant yn bwysig. Mae bod yn iach, gan gynnwys cael mynediad at wasanaethau iechyd, yn bwysig. Fel y mae amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed a sicrhau bod gan bobl y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw'r bywyd maen nhw am ei gael.
- Rydych am i'ch plant gael y dechrau gorau mewn bywyd a dyfodol uchelgeisiol disglair, mynediad at addysg dda a chyfleoedd cyfartal i wireddu eu potensial. Mae pob un ohonom am weld ein plant mwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag esgeulustod a niwed. Mae ein plant sydd â phrofiad o ofal yn haeddu'r cyfleoedd gorau i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Rydych yn fwy ymwybodol nag erioed o bwysigrwydd cael swydd ddiogel a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a goblygiadau problemau'r economi ehangach ar eich teuluoedd.
- Rydych am fwynhau a hyrwyddo'r celfyddydau yng Nghymru, ein diwylliant a'n treftadaeth a'r Gymraeg.
- Rydych yn deall fod llai o arian i'w wario felly rydych am i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan eich Cyngor ganolbwyntio mwy ar anghenion y gymuned ac rydych am i ni wrando arnoch a gweithredu ar eich barn.
- Rydych yn deall bod gennych ran yn y broses o wneud ein Bwrdeistref Sirol yn lle mwy dymunol i fyw, megis glanhau ar ôl eich cŵn, lleihau gwastraff ac ailgylchu'r hyn a allwch.

Rydym wedi cytuno sut byddwn yn gweithio'n wahanol i addasu i'r holl newidiadau hyn.







## 02 Ein huchelgais ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Sut fyddwn ni'n gweithio'n wahanol i chi

Dros y pum mlynedd nesaf, rydym am fuddsoddi yn y pethau cywir, y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gennych chi.

Rydym yn wynebu dewisiadau anodd am y ffordd rydym yn blaenoriaethu gwariant, ni fyddwn yn gallu gwneud popeth i bawb.



Bydd angen i ni wella'r ffordd rydym yn cydweithio â sefydliadau eraill ac, yn bwysicaf oll, gwella'r ffordd rydym yn gweithio gyda phobl leol.

Mae angen i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd i gael y canlyniadau gorau i'r Fwrdeistref Sirol gyfan. Bydd angen i ni ganolbwyntio ar gynorthwyo pobl leol a'u cyfeirio at gyngor a chymorth, yn ogystal â darparu gwasanaethau'n uniongyrchol.

Gan fod ein cyllideb yn gyfyngedig a'r galw am wasanaethau fel gofal cymdeithasol, tai a digartrefedd yn parhau i godi, bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ynghylch lleihau rhai gwasanaethau eraill neu roi'r gorau iddynt hyd yn oed.

Byddwn yn gwneud hyn mewn ffordd agored a thryloyw, gan ofyn i bobl leol am eich blaenoriaethau i lywio ein penderfyniadau.



## Pum ffordd o weithio eich Cyngor chi

- Defnyddio adnoddau'n well ac yn eu targedu'n well
- Un Cyngor, yn gweithio gyda'n gilydd a chyda phartneriaid
- Gwella cyfathrebu, ymgysylltu ac ymatebolrwydd
- Cefnogi a grymuso cymunedau
- Gwarchod y gwasanaethau sydd bwysicaf i chi



# 7 Amcan Llesiant eich Cyngor



1

Bwrdeistref Sirol lle rydym yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed



2

Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, swyddi medrus o ansawdd uchel a threfi ffyniannus



3

Bwrdeistref Sirol lle mae cymunedau'r cymoedd yn ffynnu



4

Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial



5

Bwrdeistref Sirol sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur



6

Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned



7

Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cynorthwyo pobl i fyw bywydau iach a hapus



# Amcan Llesiant 1

## Bwrdeistref Sirol lle rydym yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Darparu gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion o safon uchel a gwasanaethau cymorth cynnar i bobl sydd eu hangen
- Helpu pobl mewn tlodi i gael y cymorth sydd ei angen arnynt neu'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo
- Cynorthwyo pobl sy'n wynebu digartrefedd i ddod o hyd i le i fyw
- Cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael y gorau o'u haddysg
- Diogelu ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed

# Yr hyn rydym wedi'i wneud

Gweithio'n gyflymach ac yn fwy effeithiol gyda phartneriaid yn ystod y pandemig i gefnogi pobl ddigartref.

Darparu llety dros dro i 2080 o bobl rhwng 2020 a 2022 a oedd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cynorthwyo pobl hŷn ac anabl, gan fuddsoddi £4.6 miliwn i'w helpu i wneud newidiadau i'w cartrefi.

Cynorthwyo pobl agored i niwed i aros mewn llety drwy'r gwasanaethau alcohol, cyffuriau ac iechyd meddwl yn gweithio gyda'r trydydd sector.

Gwario bron i £8 miliwn drwy Grant Cymorth Tai i gyflawni ein strategaeth ddigartrefedd.

Agor dwy ganolfan adnoddau dysgu (un cyfrwng Cymraeg ac un cyfrwng Saesneg) gyda lle i 23 o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Creu'r Hwb Cymorth Cynnar a'r Hwb Ardal Diogelu yn Ysgol Brynteg i roi gwell cymorth i blant a'u teuluoedd.

Talu mwy na 14,700 o daliadau tanwydd gaeaf a 50,000 o daliadau costau byw a chynorthwyo dros 16,000 o drigolion i dalu'r Dreth Gyngor.

Rhoi cymorth i deuluoedd gyda materion fel ysgol ac addysg, ymddygiad, iechyd, neu dai, drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu. Daeth 73% o ymyriadau i ben gyda chanlyniad cadarnhaol yn 2021-2022.

Darparu cymorth a chyngor cynnar i ofalwyr di-dâl er mwyn atal yr angen am gymorth neu wasanaethau ffurfiol.

Cynorthwyo dros 5000 o bobl agored i niwed drwy'r pandemig, gan gydweithio â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr a chymunedau.

Sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn deall eu cyfrifoldebau diogelu.

Gwell Gofal Cymdeithasol Plant sydd wedi gwella canlyniadau i'n plant a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed.

Creu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol di-dor, er mwyn cadw pobl yn iach, yn annibynnol ac wedi'u cysylltu'n dda.

Gwell asesiadau gwaith cymdeithasol er mwyn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bob person a chynlluniau gofal i'w cynorthwyo i fyw'r bywydau maen nhw am eu byw.

Gwell gwasanaethau eiriolaeth, iechyd meddwl ac anabledd dysgu sy'n gweithio gyda phobl.

Datblygu Strategaeth Camfanteisio i ddiogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o brofi cam-fanteisio troseddol a rhywiol.

Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 10 a 17 oed sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol o 167 fesul 100,000 ym mis Gorffennaf 2018 i 121 yn 2022.



# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Datblygu strategaeth digartrefedd newydd gyda phartneriaid i gyflawni prosiectau newydd er mwyn atal a lleihau digartrefedd.

Buddsoddi £750,000 o arian 'strydoedd mwy diogel' mewn camerâu cylch cyfyng ychwanegol, gweithgareddau ieuenctid a dosbarthiadau hunanamddiffyn menywod.

Gwella'r broses grantiau a'r mynediad at grantiau i bobl hŷn a phobl anabl sydd angen gwneud newidiadau i'w cartref.

Darparu hyfforddiant i o leiaf 60 o staff ysgol am ddiwygio ADY a sut i gynorthwyo plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Byddwn yn parhau i wella gwasanaethau cymorth cynnar drwy gynyddu nifer yr ymyriadau tîm o amgylch y teulu sy'n cau gyda chanlyniad cadarnhaol.

Cefnogi preswylwyr cymwys i dalu eu biliau ynni drwy weinyddu Cynllun Cymorth Biliau Ynni Llywodraeth y DU.

Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol sydd ar gael i drigolion.

Helpu cymunedau i fod yn fwy gwydn, fel bod mwy o bobl yn dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt yn eu cymuned, gyda'r trydydd sector.

Cefnogi llesiant gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc - i gael bywyd y tu hwnt i ofalu.

Gweithio fel un Cyngor ar gynllun strategol i wella ein trefniadau diogelu.










Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o brofi camfanteisio.

Gwella Gwasanaethau Plant drwy gyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun strategol tair blynedd.

Gwella gofal cymdeithasol i oedolion gyda chynllun strategol tair blynedd newydd i fynd i'r afael ag effeithiau corfforol ac iechyd meddwl Covid-19 ar bobl ag anghenion gofal a chymorth, a'n gweithlu.

Newid y ffordd y mae ein gweithwyr cymdeithasol yn gweithio i adeiladu ar gryfderau pobl ac adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, y perthnasoedd sydd ganddynt ag eraill a'u helpu i gyflawni eu potensial.

Mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol pwysig megis gofal a chymorth yn y cartref, cartrefi gofal arbenigol i blant ac oedolion a recriwtio mwy o deuluoedd maeth, a nodwyd gan y Cyngor a phartneriaid.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu 'hybiau cynnes' mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

Nodi plant sy'n fwy tebygol o droseddu a rhoi cymorth iddynt er mwyn lleihau ymddygiad troseddol.

# Sut allwch chi ein helpu…

- Ystyried dod yn ofalwr maeth neu fabwysiadu
- Rhoi gwybod i ni am rywun sy'n cysgu ar y stryd fel y gallwn geisio cynorthwyo
- Os ydych chi'n poeni am blentyn, ffrind neu gymydog agored i niwed, rhowch wybod i ni fel y gallwn helpu
- Cyflwyno ceisiadau cymwys, cywir am gymorth ariannol i gyflymu'r broses dalu
- Ymgysylltu ag ysgolion a'r Cyngor i gynorthwyo plant mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau
- Dod yn wirfoddolwr cymunedol i helpu i ddarparu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyfeirio pobl rydych yn teimlo fyddai'n elwa o gymorth cynnar






# Amcan Llesiant 2

## Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, swyddi medrus o ansawdd uchel a threfi ffyniannus

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Helpu ein preswylwyr i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith
- Sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod o hyd i swyddi neu mewn addysg neu hyfforddiant
- Gwella canol ein trefi, eu gwneud yn fwy diogel a deniadol
- Denu buddsoddiad a chefnogi busnesau lleol newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli

# Yr hyn rydym wedi'i wneud

Dyfarnu dros £2 filiwn o grantiau cyfalaf Trawsnewid Trefi i 14 o brosiectau sydd wedi trawsnewid hen eiddo ac eiddo gwag yn asedau newydd yng nghanol ein trefi.

Dyfarnu £255,000 mewn grantiau cyfalaf i 17 busnes canol tref i helpu adferiad economaidd ac addasu sut maen nhw'n gweithredu ar ôl y pandemig.

Buddsoddi £595,000 mewn teledu cylch cyfyng ac ychwanegu wi-fi mynediad cyhoeddus am ddim yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Phencoed.

Hwyluso'r gwaith o ddatblygu Campws newydd ar gyfer Coleg Penybont gwerth £48 miliwn yng nghanol y dref, gan gydweithio â Choleg Penybont a Llywodraeth Cymru, a fydd yn helpu i adfywio canol y dref.

Sicrhau dros £22 miliwn o fuddsoddiad gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer prosiectau economaidd a chymunedol, gyda'r trydydd sector ac elusennau.

Cynorthwyo 550 o fusnesau newydd ers 2021 a dyfarnu 23 o grantiau cychwyn busnes yn y rownd gyfredol, er mwyn annog cymuned fusnes ffyniannus.

Datblygu'r Rhaglen Ysbrydoli i Weithio gan roi cymorth i 460 a mwy o bobl ifanc rhwng 16 a 24 i lunio CV a'u helpu gyda chyfweliadau i'w helpu i ddod o hyd i swyddi neu hyfforddiant.

Cynorthwyo 300 o fyfyrwyr chweched dosbarth i fynychu Ffair Swyddi Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2022.

Mae Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal ymweliadau rheolaidd â Barics Wellington, Llundain i ddysgwyr gael profiad o fywyd fel cerddor proffesiynol yn y fyddin.

Cynorthwyo'r economi leol drwy wella'r ffordd rydym yn caffael ein nwyddau a'n gwasanaethau, gan wneud contractau'n fwy hygyrch i fusnesau lleol a bach.

Ennill achrediad cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol, gyda'r effaith fwyaf ar weithwyr ar gyflogau isel a chynyddu nifer y prentisiaid a'r graddedigion rydym yn eu cyflogi, gan dyfu ein gweithlu ein hunain ar gyfer y dyfodol.

Sefydlu grŵp llesiant newydd i weithwyr y Cyngor a phenodi Swyddog Iechyd a Llesiant. Rydym wedi cyflwyno gweithio hybrid hefyd fel y gall gweithwyr weithio'n fwy hyblyg a gwella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Darparu dros £54 miliwn mewn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo busnesau lleol, gydol y pandemig.

Defnyddio dros £7 miliwn o gyllid grant gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i helpu gyda'n prosiectau a chael budd o weithio gyda'n gilydd fel rhanbarth, cymorth buddsoddi a hyfforddiant.



# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Darparu £1.3 miliwn pellach o fuddsoddiad Trawsnewid Trefi yng nghanol ein trefi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd nesaf i wella cynaliadwyedd economaidd canol ein trefi.

Blaenoriaethu'r gwaith o ddisodli Pont Ffordd Pen-prysg a thynnu'r groesfan reilffordd ym Mhencoed a cheisio cael cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer y prosiect hwn.

Ailddatblygu Gorsaf Ganolog Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys gwella'r ardal gyhoeddus ym mlaen yr orsaf a chael cyfnewidfa drafnidiaeth yn y cefn, gan ddarparu cysylltiadau rhwng gwasanaethau bws a threnau, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Network Rail.

Buddsoddi £22 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin mewn prosiectau yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2025, gyda phartneriaid yn y trydydd sector, yn cynnwys mewn pobl a sgiliau, cefnogi busnesau lleol, a datblygu cymunedau a lleoedd.

Buddsoddi mewn busnesau newydd yn y Fwrdeistref Sirol drwy ddarparu cymorth proffesiynol a chymorth grant, gan gefnogi sectorau twf allweddol fel ymchwil a datblygu, cyllid a'r economi werdd.

Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn y Fwrdeistref Sirol i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.

Annog ein cyflenwyr i fod yn gyflogwyr cyflog byw gwirioneddol.










Cyflogi a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol cymwys, â chymhelliant da sy'n cael cefnogaeth dda, yn y Cyngor a chyda phartneriaid. Llenwi swyddi gwag yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol a lleihau dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth.

Bydd Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu cysylltiadau pellach gyda phrifysgolion ac ysgolion cerddoriaeth i ddatblygu sgiliau cerddoriaeth mewn pobl ifanc sy'n arwain at swyddi.

Helpu busnesau lleol i dendro am waith yn y sector cyhoeddus drwy ein prosiect Rheolaeth Cysylltiad Cyflenwyr (SRM) a'n tudalen we caffael allanol, gan gynorthwyo busnesau lleol i fod yn hyfyw ar ôl Covid.

Helpu pobl gydag anghenion gofal a chymorth i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio a chael swyddi.

Gwella diwylliant y Cyngor fel cyflogwr, gan gynnig cyfleoedd gwaith teg i weithwyr presennol a darpar weithwyr. Defnyddio barn ein gweithlu i wneud gwelliannau, datblygu a chymell gweithwyr a gwella lefelau cadw staff.

Cydweithio â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i 10 awdurdod lleol i feddwl yn rhanbarthol ynglŷn â chynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd.



## Sut allwch chi ein helpu…

- Bod yn uchelgeisiol, e.e. drwy ddechrau eich busnes eich hun neu wneud cais am swydd newydd
- Cefnogi busnesau lleol drwy brynu'n lleol
- Manteisio ar y cymorth sydd ar gael i wneud y gorau o'ch busnes
- Os ydych yn rhedeg busnes, ystyried cyflogi prentis neu weithio gydag ysgolion i helpu myfyrwyr i feddwl am yrfaoedd
- Os ydych yn rhedeg busnes, tendro i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i bartneriaid yn y sector cyhoeddus
- Cynorthwyo plant i fanteisio ar y cynnig i wneud cais am gymorth gyda cheisiadau a sgiliau cyfweliad
- Cyfeirio pobl ifanc at raglen Ysbrydoli i Weithio
- Os ydych yn gyflogwr, talu'r cyflog byw gwirioneddol





# Amcan Llesiant 3

## Bwrdeistref Sirol lle mae cymunedau'r cymoedd yn ffynnu

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Buddsoddi yng nghanol tref Maesteg a chreu mwy o swyddi yn y cymoedd
- Gwella cyfleusterau cymunedol a'u gwneud yn fwy hygyrch
- Gwella addysg a sgiliau yn y cymoedd
- Buddsoddi yn ein parciau a chefnogi twristiaeth i'r cymoedd




## Yr hyn rydym wedi'i wneud

Buddsoddi £8 miliwn yn y gwaith o adfer, ailwampio ac ymestyn Neuadd y Dref Maesteg, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, gan ddarparu cyfleuster cymunedol a chelfyddydol unigryw.

Sicrhau £3.5 miliwn gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i adfer safle Heol Ewenni ym Maesteg, gyda'r tirfeddiannwr cyffiniol, i ddatblygu 200 a mwy o gartrefi, man agored cyhoeddus, cyfnewidfa drafnidiaeth a hyb mentergarwch.

Dyfarnu £360,000 o grantiau cyfalaf i 51 o fusnesau a chyfleusterau yn y cymoedd i helpu gydag adferiad economaidd.

Adeiladu dwy ysgol gynradd newydd (1 cyfrwng Cymraeg, 1 cyfrwng Saesneg) ym Metws, gyda dysgu o'r radd flaenaf ar gyfer 420 o ddysgwyr rhwng pedair ac 11 oed a darpariaeth feithrin.

Ailddatblygu Canolfan Chwaraeon Maesteg i'r gymuned wedi iddi gael ei defnyddio fel canolfan frechu covid.

Buddsoddi mewn canolfannau cymunedol fel bod ganddynt fwy o gyswllt digidol mewn partneriaeth â Cwmpas a phartneriaid iechyd.

Sicrhau £1 miliwn o gyllid cyfalaf drwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd ar gyfer Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, (£636,000 ar gyfer Parc Bryngarw) a'r Ymddiriedolaeth Natur ar gyfer De a Gorllewin Cymru, (£391,000 ar gyfer gwarchodfa natur Parc Slip) i wella cyfleusterau ymwelwyr.

Buddsoddi mewn teledu cylch cyfyng a wi-fi mynediad cyhoeddus am ddim yng nghanol tref Maesteg.



## Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Cwblhau Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer canol tref Maesteg er mwyn gwella'r amgylchedd a chefnogi ceisiadau buddsoddi yn y dyfodol.

Datblygu strategaeth adfywio ar gyfer Cymoedd Ogwr a Garw.

Symud ymlaen gyda Throsglwyddo Asedau Cymunedol yn y cymoedd, gan gynnwys Caeau Chwarae Llangynwyd, i ddiogelu'r asedau cymunedol gwerthfawr hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Datblygu grant gwella eiddo masnachol ar gyfer pob stryd fawr yn y cymoedd, i wella eu golwg a dod ag eiddo yn ôl i ddefnydd masnachol.

Rydym yn bwriadu sefydlu tair darpariaeth Dechrau'n Deg newydd, gan gynnig gofal plant am ddim i blant dwy oed yn Nant y moel, Bro Ogwr a Phontycymer.

Ailddatblygu safle Heol Ewenni, gan gynnwys cartrefi newydd a fforddiadwy, hyb menter, man agored a seilwaith gwyrdd, mewn partneriaeth â'r tirfeddiannwr drws nesaf.

Datblygu ceisiadau am gyllid ar gyfer ein cymoedd, i wella'r economi ac ysgogi cyfleoedd gwaith newydd.

Agor gwasanaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Ogwr a Betws, gyda 32 o lefydd gofal plant cyfwerth ag amser llawn.







Cynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni lles corfforol a meddyliol a gweithgareddau hamdden yn Neuadd y Dref Maesteg, Canolfannau Bywyd Cwm Ogwr a Chwm Garw, Pwll Nofio Maesteg a Chanolfan Chwaraeon Maesteg.

Hybu ac annog datblygu tai cymdeithasol newydd yn y cymoedd. Annog datblygiad cartrefi hunanadeiladu ar blotiau mewnlenwi, i gynyddu'r amrywiaeth o dai sydd ar gael.

Darparu cyfleusterau newydd ar gyfer hyfforddiant â chymorth i bobl ag anableddau dysgu yn Pren-B a B-Dail ym Mryngarw.

Cynnal gweithgareddau ychwanegol mewn lleoliadau cymunedol yn y cymoedd, gan gynnwys gweithgareddau digidol.

Cydweithio â Phrosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf i wella mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel.

Cynyddu faint o dir ac adeiladau sydd ar gael i fusnesau, gan gynnwys unedau cychwynnol diwydiannol, yn y cymoedd.



# Sut allwch chi ein helpu…

- Cefnogi busnesau lleol – cadw mwy o'ch arian yn eich cymuned
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ein canolfannau a'n hybiau cymunedol
- Defnyddio ein parciau a'n gwarchodfeydd natur ar hyd a lled ein cymoedd
- Defnyddio'r cyfleusterau iechyd a hamdden yn eich cymoedd
- Os ydych chi'n chwilio am adeiladau busnes, ystyried safleoedd yn y cymoedd
- Gwirfoddoli a chymryd rhan yn eich cymunedau






# Amcan Llesiant 4

## Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Darparu ysgolion diogel, cefnogol gydag addysgu o ansawdd uchel
- Ehangu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg
- Moderneiddio adeiladau ein hysgolion
- Cefnogi ac annog dysgu gydol oes
- Bod y rhieni gorau y gallwn i'n plant sydd wedi cael profiad o ofal
- Cynnig gwasanaethau ieuenctid a rhaglenni gwyliau ysgol i'n pobl ifanc



# Yr hyn rydym wedi'i wneud

Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithio gyda 5,650 o drigolion, wedi cyflwyno 1,762 o gyrsiau hyfforddi, ac wedi helpu 1,868 o drigolion i ganfod swyddi ers mis Ionawr 2018.

Cefnogi pob ysgol ac wedi hyfforddi 1,841 o athrawon a staff ysgolion i ddarparu'r cwricwlwm newydd, gan weithio gyda'r consortiwm.

Adeiladu pum ysgol gynradd newydd ac addasu ysgol uwchradd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Helpu ysgolion i adolygu sut maen nhw wedi darparu'r cyfleoedd dysgu gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Darparu hyfforddiant diogelu i bob ysgol i'w helpu i amddiffyn plant rhag niwed.

Darparu cyrsiau dysgu oedolion y mae pobl yn y gymuned wedi dweud eu bod am eu cael, gyda 222 o ddysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau.

Sefydlu cymorth trochi yn y Gymraeg y mae 10 o blant wedi cymryd rhan ynddo.

Helpu plant sydd â phrofiad o ofal, gofalwyr ifanc a phlant ag anghenion ychwanegol i wella eu llesiant drwy weithgareddau'r hyb haf, a diwrnodau darganfod.

Cyflogi Cydlynwyr Cymunedol Lleol i gefnogi cymunedau a'u cysylltu â chyfleoedd lleol gan weithio gyda'n partneriaid yng Nghymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr.

Ymgysylltu â phlant a gwrando arnynt ym mhob agwedd ar ofal cymdeithasol plant.

Ymgynghori â phlant sydd wedi profi gofal i wella ein dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen arnynt gan wasanaethau.

Agor canolfannau ieuenctid newydd ym Mracla a Bryntirion.

Cyflwyno Rhaglen 'Bwyd a Hwyl' i 71 o ddisgyblion blynyddoedd pedwar, pump a chwech yn ystod haf 2022.

Adolygu nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.



# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Bydd Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda chyllidwyr a phartneriaid, gan gynnwys y Prosiect Ysbrydoli i Weithio, i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr ar gyflogadwyedd a sgiliau.

Helpu ysgolion i gyflawni eu cynlluniau gwella drwy ddadansoddi anghenion a chynnig hyfforddiant i fynd i'r afael â hyn, gan sicrhau y bydd pob ysgol yn cael ei barnu gan Estyn fel 'dim angen camau dilynol'.

Ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i adeilad newydd gyda 2.5 dosbarth mynediad oddi ar Ffordd Cadfan ym Mracla.

Darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar safle'r ysgol iau ym Mynyddcynffig.

Ehangu Ysgol y Ferch o'r Sgêr i adeilad newydd dau ddosbarth mynediad ar safle presennol yr ysgol.

Darparu ysgol Saesneg newydd dau ddosbarth mynediad ar Ystad Marlas, Corneli yn lle Ysgolion Cynradd presennol Afon y Felin a Corneli.

Adleoli Ysgol Heronsbridge i adeilad newydd 300 lle yn Island Farm.

Sicrhau bod hyfforddiant dysgu digidol ychwanegol ar gael i staff pob ysgol i wella addysgu a dysgu yn ein hysgolion.

Sicrhau bod yr holl ysgolion lleol yn cael eu graddio'n 'wyrdd' ar ôl eu harchwiliad diogelu a darparu'r cymorth sydd arnynt ei angen i wella.










Cynnal mwy o sesiynau y mae cymunedau wedi mynegi diddordeb ynddynt. Ar ôl derbyn adborth gan y cyhoedd, darparu 20 yn rhagor o sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb.

Cyflawni'r camau gweithredu yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cydweithio ag ysgolion lleol i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr a hyrwyddo prentisiaethau.

Datblygu ein rhaglenni llesiant yn y dyfodol gyda phobl sy'n mynd i'w defnyddio.

Sicrhau bod ein rhaglenni hamdden a diwylliant yn fwy hygyrch i blant ag anghenion ychwanegol.

Cynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu gwasanaethau eu hunain.

Rhoi cariad, gofal, cartrefi diogel i fyw ynddynt a chyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau newydd i blant sydd wedi profi gofal, ennill sgiliau newydd a chyflawni eu potensial drwy weithio gyda'r Cyngor a phartneriaid.

Rhoi cyfle i oedolion ifanc ag anableddau dysgu roi cynnig ar weithgareddau, ennill sgiliau newydd a chyflawni eu potensial drwy weithio gyda'r Cyngor a phartneriaid.

Datblygu Strategaeth Rianta Gorfforaethol gyda phlant sydd wedi profi gofal i egluro beth fydd gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i'w helpu i gyflawni eu potensial a dathlu troi'n oedolion.

Ymestyn y Rhaglen 'Bwyd a Hwyl' yn Haf 2023 i o leiaf 80 o ddisgyblion.

Gwella'r arlwy ddigidol i bobl ifanc, gan gynnwys gwefan ryngweithiol a arweinir gan ieuenctid.



## Sut allwch chi ein helpu...

- Annog eich plentyn i fynychu'r ysgol yn rheolaidd a chyrraedd yno'n ddiogel
- Cynorthwyo eich plentyn i gael y gorau o'i addysg
- Cefnogi eich ysgol leol, cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian, ystyried ymuno â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon neu'r llywodraethwyr
- Cymryd rhan mewn cyrsiau a digwyddiadau dysgu gydol oes a'u hyrwyddo i'ch ffrindiau a'ch teulu
- Rhoi gwybod am unrhyw bryderon diogelu i'r Hyb Diogelu Amlasiantaeth lleol
- Ymgysylltu ag ysgolion pan maen nhw'n gofyn am eich barn a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau am ysgolion newydd
- Rhoi gwybod i ni pa gyrsiau dysgu oedolion y mae gennych ddiddordeb ynddynt a chymryd rhan yn ein cyrsiau dysgu oedolion
- Defnyddio ein rhaglenni bwyd a hwyl gwyliau haf





# Amcan Llesiant 5

## Bwrdeistref Sirol sy’n ymateb i’r argyfwng hinsawdd a natur

Dyma’r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Symud tuag at garbon sero net
- Gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau a’n gwasanaethau
- Gwarchod ein tirweddau a’n mannau agored a phlannu rhagor o goed
- Lleihau, ailddefnyddio neu ailgylchu cymaint o’n gwastraff â phosibl
- Gwella cynlluniau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd i leihau llifogydd yn ein cartrefi a’n busnesau




# Yr hyn rydym wedi'i wneud

Arbed dros 7,000 tunnell o garbon o'n gweithrediadau fel rhan o'n Strategaeth Garbon Sero Net 2030 gymeradwy, gan wneud ein rhan dros yr Argyfwng Hinsawdd.

Datblygu Cynllun Gweithredu drafft ar Ansawdd Aer i'n helpu i wella ansawdd aer yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Stryd Parc.

Buddsoddi £9.5 miliwn i adnewyddu a gwella amddiffynfeydd môr ym Mhorthcawl i amddiffyn rhag llifogydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Buddsoddi dros £500,000 mewn cynlluniau gwella amddiffynfeydd llifogydd ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys defnyddio larymau mewn cwlfertau stormydd, i ddiogelu cartrefi a busnesau.

Plannu dros 13,000 o goed, dynodi Parc Bedford yn warchodfa natur newydd ac ymestyn gwarchodfa natur Frog Pond Wood i wella a diogelu bioamrywiaeth ein Bwrdeistref Sirol.

Buddsoddi £1.5 miliwn mewn Cynllun Ynni Refit ar gyfer 19 ysgol i wella effeithlonrwydd ynni, gostwng costau ynni a gwella cynaliadwyedd, gosod goleuadau LED yn lle'r hen oleuadau, uwchraddio rheolyddion goleuo a gosod paneli ffotofoltäig solar.

Cynyddu ein cyfradd ailgylchu i 72.6% yn 2022, yr ail orau yng Nghymru, gyda chymorth ein trigolion.

Newid pob un o'n 16,000 o oleuadau stryd yn oleuadau LED Arbed Ynni, er mwyn arbed ynni a chostau rhedeg.

Cynnwys meini prawf lleihau carbon yn ein proses gaffael.

Treialu cerbydau trydan yn ein timau gofal cartref.

Buddsoddi dros £580,000 mewn mannau gwyrdd, parciau a gwarchodfeydd natur fel rhan o Brosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf.



# Yr hyn rydyn yn bwriadu ei wneud nesaf

Parhau i leihau ein hôl troed carbon drwy newid cerbydau'r Cyngor i gerbydau trydan a rhagor o gynlluniau arbed ynni.

Defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i gytuno ar Gynllun Gweithredu Ansawdd Aer a dechrau gweithio ar y mesurau i wella ansawdd aer ar hyd Stryd Parc.

Buddsoddi yn y gwaith o wella mesurau lliniaru llifogydd yn ein cymunedau yn y cymoedd i leihau'r perygl o lifogydd.

Cyflawni prosiectau fel diogelu coetiroedd, datblygu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol mewn partneriaeth â'n cymunedau fel rhan o'n Cynllun Bioamrywiaeth Pen-y bont ar Ogwr.

Plannu 10,000 yn rhagor o goed y flwyddyn a darparu Cynllun Plannu Cymunedol i wneud ein Bwrdeistref Sirol yn fwy gwyrdd.

Buddsoddi yn ail rownd y Cynllun Ynni Refit i gynnig gwelliannau arbed ynni yn adeiladau'r Cyngor gan gynnwys ysgolion.










Datblygu ein Model Gwasanaethau Gwastraff y Dyfodol, gan wella ein targedau ailgylchu ymhellach a throsi ein cerbydau. Byddwn yn ymgynghori ar yr opsiynau gyda thrigolion yn 2024.

Adeiladu pum ysgol carbon sero net newydd.

Darparu mwy o wasanaethau gofal cymdeithasol rheng flaen lle mae gweithwyr yn defnyddio cerbydau trydan y Cyngor.

Sicrhau bod y Ganolfan Ailgylchu Gymunedol newydd yn y Pîl yn cael ei hagor.

Cydweithio â Phrosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf i wella mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel yn ein Bwrdeistref Sirol.



## Sut allwch chi ein helpu…

- Ailddefnyddio ac ailgylchu mwy, ailgylchu'n gywir. Meddwl am eich arferion prynu a sut gallwn leihau ein gwastraff
- Ymfalchïo yn ein Bwrdeistref Sirol drwy beidio â gollwng sbwriel, tipio anghyfreithlon a gosod posteri'n anghyfreithlon a glanhau ar ôl eich ci
- Defnyddio parciau a mannau gwyrdd ein Bwrdeistref Sirol i fynd allan, cael hwyl a gwella eich iechyd a'ch lles eich hun
- Meddwl yn wyrddach, byw'n wyrddach, lleihau'r defnydd o blastig untro ac ynni lle bo modd
- Cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddoli amgylcheddol fel casglu sbwriel
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am eich ardal leol drwy ddatrys, cofnodi a rhoi gwybod am unrhyw broblemau
- Prynu'n lleol i leihau eich ôl troed carbon eich hun
- Meddwl sut gallwch wneud eich cartref yn fwy effeithlon o ran ynni





# Amcan Llesiant 6

Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl leol, gan gynnwys pobl ifanc, gwrando ar eu safbwyntiau a gweithredu arnynt
- Cynnig mwy o wybodaeth a chyngor ar-lein ac yn eich llyfrgelloedd a'ch adeiladau cymunedol, nid mewn Swyddfeydd Dinesig yn unig
- Helpu clybiau a grwpiau cymunedol i wella a chymryd rheolaeth o'u cyfleusterau a'u diogelu at y dyfodol
- Sicrhau eich bod yn gallu siarad â ni a chlywed gennym yn y Gymraeg
- Dathlu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant a mynd i'r afael â gwahaniaethu



# Yr hyn rydym wedi'i wneud

Gweithio i gyflawni ein hymrwymiadau cydraddoldeb, gan gynnwys cefnogi digwyddiadau Pride, codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, helpu pobl anabl i wneud cais am swyddi yn y Cyngor a llawer o weithgareddau eraill.

Ymgynghori â thrigolion, gan gynnwys ar y gyllideb, y cynllun datblygu lleol a moderneiddio ysgolion, ac ymgynghori â staff drwy ein harolwg staff, a'r cyfan i lywio ein cynlluniau a'n penderfyniadau.

Gwneud ein gwefan yn fwy hygyrch a rhwydd i'w defnyddio. Buddsoddi yn 'Fy Nghyfrif' ein platfform digidol, i helpu pobl i roi gwybod am broblemau a thalu am bethau, gan arwain at gyfartaledd misol o 6500 o drafodion ar-lein.

Sicrhau bod modd cael mynediad at ein holl gyfathrebiadau a gwybodaeth am wasanaethau yn ddwyieithog.

Buddsoddi dros £1.1 miliwn mewn 30 a mwy o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol, helpu clybiau a grwpiau cymunedol i wella eu cyfleusterau a'u diogelu at y dyfodol.

Ymgysylltu â'r gymuned ar faterion cynllunio o bwys gan gynnwys Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Strategaeth Creu Lleoedd Porthcawl, gan ddefnyddio ymatebion i lywio'r strategaethau newydd.

Siarad ag oedolion ac oedolion hŷn am ddod yn gymuned fwy oed gyfeillgar ac yn lle gwych i dyfu'n hŷn.

Mae swyddogion sy'n llywio a chysylltu cymunedau wedi helpu pobl i ddod o hyd i'r gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt lle maen nhw'n byw.



# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Gorffen y gwaith ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu un newydd, gan gefnogi Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb hiliol a chynlluniau gweithredu LHDTC+.

Adolygu sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â thrigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc i'n helpu i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid ac i fod yn fwy ymatebol.

Datblygu mwy o 'hybiau cymunedol' mewn llyfrgelloedd ac yn adeiladau eraill y Cyngor, fel bod modd i drigolion gael mwy o wybodaeth a chymorth heb deithio i'r Swyddfeydd Dinesig.

Buddsoddi £400,000 yn rhagor mewn Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a chynorthwyo clybiau a grwpiau cymunedol gyda grantiau offer i wella a diogelu'r cyfleusterau hyn.

Darparu cyfleoedd newydd i'r gymuned ymgysylltu â ni ar ein cynlluniau adfywio, gan gynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cynghorau tref, dysgwyr a grwpiau cymunedol.










Annog pobl, cymunedau, plant a phobl ifanc i siarad â'r Cyngor am faterion sy'n bwysig iddynt, a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Gwneud Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle gwych i dyfu'n hen, gan gydweithio â phartneriaid i wella gweithgareddau hamdden, tai hygyrch, gofal a chymorth fel Cyngor Oed Gyfeillgar.

Datblygu dull mwy cydgysylltiedig gyda phartneriaid i helpu pobl i ddod o hyd i weithgareddau a grwpiau yn eu cymunedau.

Datblygu Cynulliad Dinasyddion Hinsawdd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ganiatáu i'n cymunedau lywio ein Hagenda Carbon Sero Net 2030.



## Sut allwch chi ein helpu…

- Ymateb i ymgynghoriadau, cymryd rhan mewn digwyddiadau gan y Cyngor, ymgysylltu a grwpiau ffocws a defnyddio deisebau pan fo angen
- Rhoi gwybod am broblemau pan fyddwch yn eu gweld nhw gan ddefnyddio'r cyfleuster 'adrodd' ar ein gwefan
- Defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn ddigidol ble bynnag y bo modd
- Hybu eich Bwrdeistref Sirol – bod yn falch o'r pethau gwych sydd yma a dweud wrth eraill amdanynt
- Annog pobl ifanc i gael eu clywed





# Amcan Llesiant 7

## Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cynorthwyo pobl i fyw bywydau iach a hapus

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol er mwyn i bobl allu cerdded a beicio
- Cynnig gweithgareddau hamdden a diwylliannol deniadol
- Gwella cyfleusterau a chyfleoedd chwarae plant
- Darparu prydau ysgol am ddim ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant am ddim
- Integreiddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol â gwasanaethau iechyd fel bod pobl yn cael cymorth di-dor
- Gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy



## Yr hyn rydym wedi'i wneud

Buddsoddi dros £5 miliwn mewn llwybrau teithio llesol, er mwyn galluogi cymunedau i wneud dewisiadau teithio mwy gwyrdd, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Buddsoddi dros £1.5 miliwn mewn gwelliannau i gyfleusterau chwarae ledled y Fwrdeistref Sirol gyda 9 cyfleuster yn cael eu cwblhau hyd yma.

Cyflwyno £18 miliwn o gyllid Ffyniant Bro ar gyfer ailddatblygu Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl.

Cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl derbyn ers Medi 2022, sy'n cynnwys 617 o ddisgyblion bob dydd.

Rhoi cynnig ar brosiect Dare2Explore i gynorthwyo 56 o ddysgwyr ag anawsterau emosiynol.

Cynorthwyo 1350 o blant (0-3 oed) drwy Dechrau'n Deg bob blwyddyn. Cafodd y ddarpariaeth hon ei hymestyn yn ddiweddar i gynnwys 151 yn rhagor o blant.

Buddsoddi £400,000 ac arwain y rhaglen Super Agers rhanbarthol sy'n helpu oedolion hŷn i fod yn fwy actif.

Buddsoddi £1.2 miliwn mewn gwell cyfleusterau hyb llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Maesteg a chynorthwyo i wneud gwelliannau mynediad mewn pyllau nofio.

Ehangu "llyfrau ar olwynion" a mynediad at adnoddau digidol drwy'r gwasanaeth llyfrgell ac Awen i gyrraedd mwy o bobl.

Mae Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu gweithgareddau ensemble cerddoriaeth ieuenctid ar ôl ysgol yn ystod y tymor. Mae hyn yn cynnwys ymarferion, cyngherddau a digwyddiadau cymdeithasol.

Darparu rhaglen atgyfeirio i wneud ymarfer corff gan helpu 2,408 o bobl â phroblemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl i fod yn fwy actif, gan weithio gyda Halo leisure.

Integreiddio ein gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol mewn timau cymunedol fel bod pobl yn cael cymorth gan y person cywir ar yr adeg gywir.

Darparu 522 o dai fforddiadwy gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.



## Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Gwella niferoedd ac ansawdd cyfleoedd chwarae. Byddwn yn buddsoddi ym mhob maes chwarae i blant ac yn sicrhau bod offer chwarae cynhwysol yn cael ei ddarparu fel y gall pawb gael cyfleoedd.

Gwella dewisiadau cynaliadwy a theithio llesol, gan gynnwys cyfleuster bws Metrolink ym Mhorthcawl, i gynyddu cysylltedd a dewisiadau teithio mwy gwyrdd.

Ailddatblygu Pafiliwn y Grand Porthcawl er mwyn cynyddu'r defnydd o'r cyfleusterau newydd ac i ymestyn cyfleusterau cymdeithasol a hamdden, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

Darparu prydau ysgol am ddim i bob dysgwr ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024.

Cynyddu nifer y tai fforddiadwy ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol.

Cael gwell dealltwriaeth o anghenion tai a chymorth a chydweithio â landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi i gyd-fynd â'r anghenion hynny.

Gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â thai gwag.

Cyflwyno prosiect Dare2Explore mewn o leiaf un ysgol arall.










Cydweithio â gwarchodwyr plant, meithrinfeydd ac eraill i gyflwyno gofal plant cyffredinol i bob plentyn dwyflwydd oed.

Datblygu cynnig hamdden actif fel y gall oedolion hŷn wella llesiant corfforol a meddyliol.

Cynyddu'r defnydd o'r rhaglen atgyfeirio i wneud ymarfer corff gan bobl a allai fod wedi ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y gorffennol.

Cwblhau'r gwaith adnewyddu yn llyfrgell Pencoed.

Datblygu cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Actif a strategaeth hamdden tymor hir.

Byddwn yn cynyddu'r casgliad o ensembles cerddoriaeth a gweithgareddau ar ôl ysgol er mwyn sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn elwa o'r ddarpariaeth hon.

Cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol.

Gweithio hyd yn oed yn agosach â'r GIG er mwyn sicrhau bod pob person yn cael y gwasanaeth iechyd neu ofal cywir ar yr adeg gywir.



## Sut allwch chi ein helpu...

- Mynd i ddigwyddiadau a gweithgareddau a chymryd rhan ynddynt ac annog eraill i gymryd rhan hefyd
- Os ydych yn rhan o gymuned artistig y Fwrdeistref Sirol, gweithio gyda ni i gryfhau'n arlwy diwylliannol
- Defnyddio ein cyfleusterau diwylliannol a hamdden
- Cymryd rhan mewn chwaraeon neu gyfranogi drwy wirfoddoli i redeg tîm lleol yn eich ardal
- Byw yn actif ac yn iach ac annog eich plant i wneud yr un peth
- Cyfeirio ffrindiau a theulu i wirio a ydynt yn gymwys ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant a ariennir ar gyfer plant dwy oed
- Defnyddio opsiynau teithio gwyrddach - cerdded, beicio, rhannu ceir a cherbydau allyriadau isel
- Annog cerddorion ifanc i fynychu ensembles cerddoriaeth ieuenctid
- Os ydych yn landlord, darparu cartrefi o ansawdd da



# Sut fyddwn ni'n mesur a dangos ein cynnydd i chi

Mae ein cynllun corfforaethol yn dweud wrthych beth yw ein blaenoriaethau, a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni.

Ond mae angen i ni adrodd yn ôl yn rheolaidd hefyd fel y gallwn ddweud wrthych a ydym ar y trywydd iawn.

Rydym yn defnyddio model safonol 'Cynllunio, Gwneud, Adolygu, Diwygio,' i wneud hyn.




| CYNLLUNIO | GWNEUD | ADOLYGU | DIWYGIO |
|---|---|---|---|
| Adnabod anghenion<br>Pennu blaenoriaethau, datblygu targedau a chamau gweithredu<br>Pennu cyllidebau | Darparu gwasanaethau<br>Cyflawni ymrwymiadau<br>Casglu gwybodaeth<br>Monitro perfformiad | Adolygu perfformiad<br>Adolygu cyllidebau a risgiau<br>Adolygu a herio yn yr APC a chraffu | Ymchwilio i amgylchedd sy'n newid<br>Gwirio blaenoriaethau, targedau a chamau gweithredu<br>Defnyddio gwersi a ddysgwyd |





Rydym yn cyflwyno adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac i'ch aelodau etholedig yn rheolaidd.

Rydym yn defnyddio cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor i wneud hyn, yn ogystal â chyfarfod arbennig o'r enw Asesiadau Perfformiad Corfforaethol (APC). Yma, mae uwch-reolwyr y Cyngor, y Cabinet a Chadeiryddion Craffu yn dod ynghyd i asesu a herio perfformiad ac i wneud newidiadau i'r gwasanaethau lle bo angen. Mae'r cylch dros flwyddyn yn edrych fel hyn -

| | **Chwarter 1** (Medi) | **Chwarter 2** (Rhagfyr) | **Chwarter 3** (Mawrth) | **Chwarter 4** (Mehefin) |
|---|---|---|---|---|
| **Asesiad Perfformiad Corfforaethol** | Adolygu a herio targedau<br>Gwneud newidiadau lle bo angen | Adolygu data perfformiad a thueddiadau ar gyfer chwarter 2<br>Cytuno ar gamau sydd eu hangen os nad yw targedau'n cael eu cyrraedd | Adolygu perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer chwarter 3<br>Gwneud newidiadau lle bo angen | Adolygu perfformiad y flwyddyn<br>Adolygu ein hadroddiad hunanasesu blynyddol |
| **Trosolwg a Chraffu Corfforaethol** | | Herio tanberfformiad<br>Cyfeirio manylion i bwyllgorau craffu | | Dadansoddi perfformiad diwedd blwyddyn<br>Cymharu<br>Cyfeirio manylion i bwyllgorau craffu |
| **Pwyllgorau trosolwg a chraffu** | | Ymchwilio i broblemau perfformiad | | Ymchwilio i broblemau perfformiad |

Dywedodd ein rheoleiddwyr a'n hunanasesiad ein hunain wrthym fod angen i ni wella'r ffordd rydym yn rheoli perfformiad. Byddwn yn gwneud hyn dros y pum mlynedd nesaf, gan edrych ar y canlynol –

- Safon a chywirdeb ein data
- Diwylliant, rolau a chyfrifoldeb dros reoli perfformiad
- Gallu staff a thimau i reoli perfformiad
- Ein system berfformiad
- Y ffordd yr ydym yn cymharu ein perfformiad dros amser a chydag eraill

## Sut fyddwn ni'n defnyddio eich barn

Bob blwyddyn, byddwn yn ymgynghori ac yna'n cyhoeddi hunanasesiad o'n perfformiad yn y flwyddyn flaenorol.

Byddwn yn parhau i ofyn i chi am ein blaenoriaethau a'n perfformiad yn ein harolwg blynyddol o'r gyllideb hefyd.

Mae materion penodol yn ymwneud â pherfformiad a gwasanaethau yn rhan reolaidd o'n gwaith ymgysylltu â'n Panel Dinasyddion a'n Cyngor Ieuenctid.







Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council